

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-08-01(p.5)

Dyddiad: 16 Mai 2001

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Cynigion ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Diben:

1. Hysbysu a cheisio barn aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cyhoeddi'r gorchmynion drafft ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn ddiweddariad ar yr un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 24 Ionawr 2001 (HSS-01-01 p6) pan gyflwynwyd y cynigion ar gyfer fframwaith rheoliadol newydd ar gyfer Proffesiynau yn gysylltiedig â Meddygaeth – y Cyngor Proffesiynau Iechyd newydd – a chanlyniadau'r ymgynghoriad yng Nghymru. Yn dilyn y drafft ymgynghorol cyntaf, bellach mae gorchmynion wedi eu cyhoeddi ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gyda chyfnod ymgynghori hyd at 1 Mehefin 2001. Bydd y prif newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf yn cael eu nodi, ynghyd â'r materion sy'n ymwneud â Chymru.

Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mehefin 2000 (HSS-1400-00 p2) hefyd a oedd yn nodi'r cynigion ar gyfer corff Cymreig newydd o ganlyniad i'r penderfyniad i sefydlu Cyngor Nyrsio a Bydwreidigaeth newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Amserlen

3. Cafodd y gorchmynion drafft ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor

Nyrsio a Bydwreigiaeth eu cyhoeddi ar 2 Ebrill 2001 gyda chyfnod ymgynghoriad yn diweddu ar 1 Gorffennaf 2001. Rhagwelir y bydd y gorchmynion yn cael eu cyflwyno gerbron y senedd ym mis Hydref 2001.

Cefndir

4. Cynhaliwyd y broses ymgynghori ddechreuol ynghylch deddfwriaeth newydd i sefydlu Cyngor Proffesiynau Iechyd a Chyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth newydd rhwng mis Awst a mis Hydref 2000.

Cafodd Gorchmynion Drafft y Cyfrin Gyngor eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2001 ac mae'r cyfnod ymgynghori yn parhau hyd 1 Gorffennaf 2001. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd ym mis Hydref 2001 ac yn dod i rym ym mis Ebrill 2002

5. Yn ystod yr ymgynghoriad dechreuol ar y cynigion ar gyfer y **Cyngor Proffesiynau**

Iechyd newydd roedd y prif fudd-gyfrannwyr yn mynegi barn groesawgar a chadarnhaol tuag at y cynigion yn gyffredinol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am y diffyg cynrychioliaeth broffesiynol wedi ei warantu ar gyfer bob un o'r pedair gwlad. Cyflwynwyd newidiadau i ymdrin â'r mater hwn, sy'n nodi y dylai o leiaf un aelod proffesiynol ac eilydd ddod o bob gwlad yn y DU (Atodlen 1, paragraff 4). Mae maint a strwythur y Cyngor yn parhau yr un fath.

6. Mynegwyd rhagor o bryder gan rhai grwpiau proffesiynol ynghylch y lefel mewnbwn proffesiynol unigol i'r **Cyngor Proffesiynau Iechyd** a'r pwyllgorau statudol. Mae'r gorchmynion arfaethedig yn cynnwys yr hawl i'r Cyngor sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol Proffesiynol (Erthygl 3, Atodlen 1, paragraff 14)

7. Mynegwyd pryderon mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** hefyd. (Crynodeb o'r ymatebion ynghlwm yn Nogfen 1). Mae'r mwyafrif wedi bod yn faterion DU neilltuedig sy'n cael eu taclo trwy drafodaeth rhwng yr Adran Iechyd a'r partïon a diddordeb ledled y DU.

8. Serch hynny mae rhai materion yn benodol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd mae'r strwythur rheoleiddio nyrsio yn cynnwys Byrddau Cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, yn ogystal â'r UKCC sy'n gorff ymbarel i'r cyfan. Prif rôl y Byrddau Cenedlaethol yw sicrhau ansawdd y rhaglenni addysgol sy'n arwain at gofrestru fel nyrs, bydwraig neu ymwelydd iechyd. Y cynnig yw diddymu'r Byrddau Cenedlaethol, gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth newydd yn cymryd cyfrifoldeb am sicrwydd ansawdd.

9. Rydym yn awyddus i'r mecanweithiau sicrwydd ansawdd yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithiol. Tra bo'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol o blaid llilinio'r broses, ni chredwn ei bod yn synhwyrol cyflwyno'r newid ar yr un adeg a sefydlu'r cyrff newydd. Teimlwn y dylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ariannu'r system bresennol am o leiaf dwy flynedd er mwyn caniatáu i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ystyried sut y mae'n dymuno symud ymlaen â'i swyddogaeth yn y dyfodol.

10. Bydd digwyddiadau ymgynghori ar gyfer Gorchmynion Drafft y Cyfrin Gyngor ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cynnal ar 8 Mai yng Nghaerdydd, wedi eu trefnu ar y cyd rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Iechyd. Estynnwyd gwahoddiad i fudd-gyfrannwyr allweddol o blith grwpiau proffesiynol, cyflogwyr, mudiadau cleifion a'r undebau llafur.

Ystyriaeth

11. Mae'n rhaid cyflwyno ymatebion y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r cynigion ar gyfer y ddau Gyngor i'r Adran Iechyd erbyn 1 Gorffennaf. Bydd ymatebion o'r digwyddiadau ymgynghori a'r ymatebion ysgrifenedig oddi wrth unigolion yn cael eu cynnwys yn yr ymateb hwn.

Cydymffurfio

12. Nid yw'r awdurdod i reoleiddio'r proffesiynau iechyd a nyrsys a bydwagedd wedi eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gall y Cynulliad gynnig sylwadau ar y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddefnyddio adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Themâu trawsbynciol

13. Ni nodwyd unrhyw themâu trawsbynciol.

Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc

14. Gofynnir i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r datblygiadau uchod. Mae'n bosibl y bydd y pwyllgor yn dymuno cytuno ar farn consensws ynghylch y cynigion ar gyfer Gorchmynion y Cyfrin Gyngor ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Proffesiynau Iechyd - Alan Hanna, Pennaeth Addysg Broffesiynol a Rheolaethol, Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth GIG.

Rhif ffôn: (029) 20823448.

E-bost: Alan.Hanna@wales.gsi.gov.uk

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – Andrea Nicholas-Jones, Pennaeth Strategaeth Adnoddau Dynol, Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth GIG.

Rhif ffôn: (029)20825712

E-bost: Andrea.Nicholas-Jones@wales.gsi.gov.uk

Mary Gilbert